

Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd

Cofnodion y Cyfarfod yng Nghaffi Beca dydd Mawrth 26 Gorffennaf 2022

Yn bresennol: Anthony Jenner (Cadeirydd), Russel Davies, Dennis Jones, Vivian Williams, Tudur Lewis, Geraint James, Anthony Eynon, Cyng Dorian Phillips, Rebecca Jermangl Jones, Janice Morgan (Clerc)

Ymddiheuriadau: Dim

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Mr Anthony Jenner.

1. Talwyd teyrnged i Gareth Griffiths a fu farw yn ddiweddar. Bu'n aelod gweithgar o Gyngor Cymuned Cilymaenllwyd am lawer o flynyddoedd; bydd ei golled yn fawr. JM i anfon llythyr o gydymdeimlad at ei wraig a'i deulu – **JM**
2. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 31 Mai 2022 fel y'u dosbarthwyd i'r aelodau ar gynnig TL ac eiliwyd gan RD.

Materion yn codi o 29/3/22:

- Anfonwyd y sieciau gafodd eu harwyddo yn y cyfarfod diwethaf i: Ganolfan Gymunedol Ffynnonwen, Cymdeithas Genedlaethol Hoelion Wyth am y plac ar gyfer Roy a Rhoswen Llewelyn; Caffi Beca a Chyngor Sir Caerfyrddin.
 - Mae'r archwilydd mewnol, Rosemarie Davies, wedi cwblhau'r archwiliad mewnol ac mae wedi paratoi adroddiad sy'n cadarnhau bod y cyfrifon yn gywir.
 - Mae ffurflen cyfrifon 21/22 a'r dogfennau ategol wedi cael eu hanfon i Archwilio Cymru/Audit Wales heddiw ac mae hysbysiad awdit wedi cael ei arddangos ar hysbysfwrdd Siop Glandy Cross a neges ar dudalen Facebook Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd, yn ôl y gofynion. Bydd gan etholwyr yr hawl i ofyn am gael gweld y cyfrifon ac ati tan 15 Awst.
 - Anfonodd JM y wybodaeth ynghylch cydymffurfio â'r côd ymddygiad yn ymwneud ag achosion o ddatgan diddordeb a hyfforddiant i Gyngor Sir Caerfyrddin erbyn 1/7/22.
 - Arwyddion:
 - Meini Gŵyr: mae JM wedi anfon e-bost at Cadw yn gofyn am gyngor ynghylch ailosod bwrdd gwybodaeth ar bwys y safle hynafol Meini Gŵyr yn Glandy Cross – heb gael ateb hyd yn hyn. Byddai Siop Glandy Cross yn croesawu hysbysfwrdd gan eu bod yn cael llawer o ymholiadau gan ymwelwyr ynglyn â ble mae'r safle.
 - Ynys Fach: mae'r arwydd metel sydd yn y lle picnic yn dirywio ac mae bron yn amhosib darllen y wybodaeth arno. Mae gordyfiant hefyd yn cuddio'r arwydd ac mae angen edrych ar gyflwr y ffens sydd wrth fynedfa'r lle picnic. Mae angen cadarnhau pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r safle hwn yn y lle cyntaf, ai'r cyngor cymuned neu'r cyngor sir? Bydd JM yn mynd ar drywydd hyn a chadarnhau yn y cyfarfod nesa – **JM**
3. Penodi Is-Gadeirydd: Dywedodd JM mai TL oedd y nesaf ar y rota i ymgymryd â'r swydd is-gadeirydd. Cynigiwyd TL felly gan VW ac eiliwyd gan DJ.

4. Croesawyd aelod newydd gan AJ, sef Rebecca Jermangl Jones, Hen Ysgol, Pantycaws. Bydd JM yn anfon ffurflenni aelod newydd at RJJ cyn gynted – **JM**
5. Gohebiaeth
 - Cau ffordd dros dro Login 29/7/22 – arwyddion ffyrdd wedi'u gosod yn barod
 - Cyfleoedd hyfforddiant mis Awst
 - Hyfforddiant Cynllunio i Gymunedau arlein – Dydd Mercher 7 Medi, 6-8
 - Cynhadledd Arfer Arloesol arlein – Dydd Mercher 14 Medi
 - Gwahoddiad i fynychu seminar sy'n egluro'r fframwaith cynllunio – dywedodd DPh ei bod yn werth i rai aelodau fynychu. Bydd JM yn anfon y wybodaeth at bawb – **JM**
 - Cyfle i gymryd rhan mewn 2 ymghynghoriad:
 - Treth Gyngor Decach – rhwng 12 Gorffennag a 4 Hydref 2022
 - Llundio Dyfodol Cymri: Defnyddio Cerrig Milltir Cenedlaethol i Fesur Cynnydd ein Cenedl – ar agor tan 12 MediBydd JM yn anfon y wybodaeth uchod ymlaen at bawb – **JM**
 - Cais gan Un Llais Cymru i 2 gynrychiolydd fod yn aelodau o'r pwyllgor ardal – JM i gadarnhau ydy hyn yn orfodol – **JM**
 - Nifer o grantiau gwahanol ar gael e.e. grant Adeiladau Hanesyddol Cadw; Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol; Grant Treftadaeth Pensaernïol; Cronfa Cymunedau Cynaliadwy; Cronfa Perchnogaeth Gymunedol a all fod o fudd i'r gymuned. Dywedodd DPh bod CC Llanboidy wedi gallu cynnal gweithdai i gael pobl nôl at ei gilydd ar ôl covid-19, wedi'u hariannu gan grant Unigedd. Bydd JM yn edrych drwyddyn nhw a gweld beth allai fod o fudd – **JM**
6. Mandad/Sieciau.
 - Mandad: mae JM wedi anfon ffurflen i Banc Barclays i newid y mandad. Bydd angen un enw arall ar y mandad er mwyn bod â 3 llofnodydd. Cytunwyd bod TL yn cael ei ychwanegu. Bydd JM yn trefnu hyn ac yn anfon y manylion at TL – **JM**
 - Sieciau: bydd angen llofnodi 2 siec unwaith i'r mandad gael ei phrosesu: £48 – Rosemarie Davies; £25 – llogi Caffi Beca
7. Cynllunio
 - Anfonwyd e-bost cynllunio ynghylch Llysnewydd, Hebron at yr aelodau – cais i ymestyn ac adnewyddu'r ysgubor i fod yn uned gwyliau dwy ystafell wely; yr ymgyngoriad ar agor tan 15/8/22. Doedd dim gwrthwynebiad.
 - Dywedodd DPh ei fod wedi derbyn manylion am gais cynllunio yn ymwneud â chware Gilfach. Bydd yn anfon y manylion ymlaen at bawb.
8. Unrhyw Fater Arall
 - JM i anfon llythyr o ddiolch i APh am ei gwaith fel clerch am gyfnod o dros 12 mlynedd. Cynigiodd TL ein bod yn gwahodd APh i swper yng Nghaffi Beca i ddangos gwerthgawrogiad y cyngor cymuned am ei gwasanaeth; eiliwyd hyn gan RD. Bydd JM yn e-bostio pawb gyda'r dyddiad – **JM**
 - Cododd TL y problem ddŵr mae Efailwen wedi cael yn ddiweddar. Mae'r sefyllfa wedi gwella erbyn hyn ar ôl cysylltu ag aelodau'r Senedd, Eluned Morgan a Cefin Campbell. Bu eitem ar y newyddion cenedlaethol hefyd.

Cytunwyd y byddai'r cyngor cymuned yn anfon llythyr os bydd y broblem yn parhau.

- Diweddariad gan y Cyng DP:
 - Bydd cwmni o'r enw Voneus yn cynnal digwyddiad galw heibio fory rhwng 2 – 8 yng Nghaffi Beca; cyfle i bawb ddod i drafod am y band bydeang gwan sydd yn y pentref. Mae Voneus wedi anfon llythyr gwadd i bob tŷ ac mae hysbys ar dudalen Facebook Rhwydwaith Efailwen. Anogodd DPh i bawb fynychu gan fod hyn yn dod yn fwy pwysig gyda mwy o bobl yn gweithio gartref ayyb.
 - Cardi Bach – y cyfarfodydd yn parhau ar gyfer creu llwybr beics/cyhoeddus – Rhydowen i Langlydwen; Login i Benclipin, Cwmeils; mae'r 2il brawf dichonoldeb (feasibility test) wedi cael ei wneud a bydd y 3ydd yn cael ei wneud nesa a fydd yn cynnwys ceisio dwyn perswâd ar berchnogion tir.
 - Llwybrau cyhoeddus – mae cais wedi dod i gymunedau wneud fwy gyda'u llwybrau cyhoeddus i bobl allu eu defnyddio. Dywedodd DPh bydd angen i'r cyngor cymuned gynnal cyfarfod a gwahodd y trigolion i fynychu er mwyn edrych ar y llwybrau cyhoeddus yn yr ardal a threfnu grŵp o bobl a allai fynd i drasho. Dywedodd RJJ y byddai rhai o reini plant Ysgol Beca yn awyddus i helpu i ailagor rhai o'r llwybrau. Bydd angen gwneud asesiad risg cyn dechrau. Dywedodd DPh hefyd bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn barod i helpu gydag unrhyw gamfeydd ac ati fyddai angen.
 - Bydd JM yn anfon dyddiad allan at bawb a phosteri gwybodaeth yn estyn gwahoddiad i drigolion y gymuned – **JM**


9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

- Dydd Mawrth 27 Medi 2022 am 7.30pm yng Nghaffi Beca.

Terfynwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd

Arwyddwyd:

Cadeirydd:



.....

Dyddiad: 27/09/2022